

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn ystyried rhwymedigaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y'u hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn ogystal â ffactorau penodol sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

Rhan 1 – Sgrinio

1. Enw'r gweithgaredd sy'n cael ei asesu

Cynllun cyflwyno newydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer 2026–2029.

2. Rheswm dros yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Datblygu a gweithredu'r cynllun [cyflwyno tair blynedd diweddaraf](#) sy'n sail i'n strategaeth 10 mlynedd, [Treftadaeth 2033](#). Fel rhan o'r gwaith o'i ddatblygu, cynhaliwyd adolygiad o weithgareddau presennol a gweithgareddau newydd arfaethedig.

3. Y prif berson sy'n gyfrifol am asesu'r gweithgaredd

Enw: Madeleine Coupe

Teitl swydd: Pennaeth Strategaeth

Tîm: Strategaeth ac Arloesi, B I I

Dyddiad: Mehefin 2026

4. Ffactorau gweithredu

A oes unrhyw ffactorau a allai gyfrannu at neu amharu ar nod bwriadedig y gweithgaredd? Ystyriwch y canlynol:

Ariannol

Gallai amrywiadau mewn cyllidebau incwm a rhagamcanion effeithio ar faint o fuddsoddi sydd ar gael ar gyfer grantiau. Gallai hyn fod yn gadarnhaol a chynyddu'r swm sydd ar gael neu gallai leihau ac felly gyfyngu ar ein cyrhaeddiad a'n huchelgais. Cymerir mesurau lliniaru i reoli incwm gyda chyllidebau blynyddol, adolygu rhagolygon bob tri mis a monitro prosiectau byw yn barhaus.

Deddfwriaethol

Fel corff cyhoeddus anadrannol sy'n atebol i Senedd y DU drwy'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), mae'r adran yn gosod ein [Cyfarwyddiadau polisi](#) ar gyfer y DU ac ar gyfer Lloegr. Mae gennym gyfarwyddiadau Polisi hefyd gan lywodraethau datganoledig Yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon (mae Cyfarwyddiadau Polisi Gogledd Iwerddon yn aros am gymeradwyaeth gweinidogion).

Rydym yn buddsoddi arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, a weithredir gan Allwyn UK, yn ogystal ag arian treftadaeth ar ran llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydym yn cydnabod ein rhwymedigaethau i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a threthdalwyr wrth esbonio sut rydym yn defnyddio eu harian, gan weithio mewn cydymffurfiaeth â deddfau perthnasol a'n Dogfen Fframwaith gyda DCMS.

Bwrdd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yw ein corff cyfreithiol ar gyfer gweinyddu a goruchwyllo'r holl arian a freinir ynom. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 i weinyddu [Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol](#).

Mae ein penderfyniadau am geisiadau a pholisïau unigol yn gwbl annibynnol o lywodraeth.

5. Y prif randdeiliaid yr effeithir arnynt

Pwy yw'r rhanddeiliaid mewnol ac allanol y bydd y gweithgaredd yn effeithio arnynt?

Staff: bydd y cynllun cyflwyno newydd yn gosod cyfeiriad y buddsoddi a'r ffocws ar gyfer staff ar draws y sefydliad gan gynnwys uwch arweinwyr a'r Weithrediaeth, aelodau pwyllgorau ac aelodau'r Bwrdd. Gallai ystyried buddsoddiadau portffolio sy'n cydweddu â'r nodau strategol effeithio ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Defnyddwyr gwasanaeth: gallai blaenoriaethau a ffocws newydd y cynllun cyflwyno gael effaith gadarnhaol ar ymgeiswyr gan y bydd yn tynnu sylw at feysydd penodol ac yn ennyn syniadau prosiect newydd. Bydd yn rhoi eglurder ar fentrau strategol ond nid yw'n newid gallu ymgeiswyr i wneud cais i Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer unrhyw brosiect sy'n bodloni ein pedair egwyddor fuddsoddi o dan Treftadaeth 2033.

Partneriaid: mae'r cynllun cyflwyno'n tynnu sylw at uchelgais y sefydliad i weithio mewn partneriaeth a gyda rhwydweithiau ehangach sy'n fuddiol i dreftadaeth, gan ddarparu mwy o werth i bobl, cymunedau a lleoedd drwy ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol ac ymateb iddynt. Mae'r cynllun yn anelu at flaenoriaethu ymyriadau gyda phartneriaid i fuddsoddi mewn prosiectau treftadaeth sy'n cefnogi cyfleoedd i bobl ifanc, datblygu sgiliau treftadaeth, gwella cynladwyedd ariannol a dwysau arbenigedd a dealltwriaeth o risgiau hinsawdd i dreftadaeth. Byddwn yn cefnogi ac yn annog cyd-ddylunio prosiectau treftadaeth sy'n diwallu anghenion lleol a chymunedol ac sy'n cryfhau cydweithio â'r llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol ac yn Lloegr, awdurdodau strategol maerol yn ogystal ag arianwyr eraill a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol.

6. Polisïau eraill sy'n effeithio ar y gweithgaredd hwn

Mae Treftadaeth 2033 yn gosod y cyfeiriad ar gyfer pob penderfyniad ariannu a bydd wrth wraidd cyflwyno uchelgeisiau'r Gronfa Treftadaeth. Mae'r cynlluniau cyflwyno tair blynedd yn nodi'n fanylach sut y bydd y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith. Cyhoeddwyd yr un cyntaf ym mis Gorffennaf 2023 ac mae wedi cael ei ddiweddarau bob blwyddyn. Caiff yr ail ei gyhoeddi ddiwedd haf 2026 ac eto, fe gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol.

Mae ein fframwaith effaith yn ein helpu i fesur a chasglu tystiolaeth am y gwahaniaeth y mae ein hariannu'n ei wneud, gan werthuso yn erbyn datganiadau effaith sy'n gysylltiedig â'r pedair egwyddor fuddsoddi. Ym mis Mawrth 2026 cyhoeddwyd ein [hadroddiad cyntaf](#) ar effaith blwyddyn gyntaf Treftadaeth 2033 a ddangosodd gyfatebiaeth gref i'n pedair

egwyddor fuddsoddi ac a ffurfiodd ran allweddol o'r dystiolaeth wrth ddatblygu'r cynllun cyflwyno ar gyfer 2026–2029. Bydd yr adroddiad effaith yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a bydd yn llywio diweddariadau i'r cynllun cyflwyno.

Bydd gweithredu cynllun cyflwyno 2026–2029 yn effeithio ar bolisïau a strategaethau ar y broses grantiau a chasglu data er mwyn deall a monitro effaith y strategaeth yn ogystal â mentrau strategol.

7. Ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Disgrifiwch y ffyrdd y gallai unigolion o wahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig ac Adran 75 isod gael eu heffeithio gan y Gweithgaredd. Ystyriwch wahanol anghenion, profiadau a blaenoriaethau. Noder, yn ogystal ag asesu grwpiau nodweddion gwarchodedig, ein bod hefyd yn asesu effaith ar statws economaidd-gymdeithasol yn y Gronfa Treftadaeth.

Rhowch fanylion y dystiolaeth/gwybodaeth (ansoddol a meintiol) rydych wedi'u cywain i lywio'r gweithgaredd hwn a'i asesiad.

Gall yr effaith fod yn *negyddol neu'n gadarnhaol* ac efallai y bydd yn effaith *uchel neu isel*. Nodwch a ydych chi'n credu nad oes unrhyw effaith, neu a oes effaith isel neu effaith uchel ar gyfer pob grŵp. Cofiwch roi esboniad ar gyfer pob un.

I'r rhan fwyaf o'r grwpiau a restrir isod, mae effeithiau cadarnhaol a negyddol y strategaeth yr un fath ar draws y nodweddion gwarchodedig.

Mae'r effeithiau cadarnhaol posibl fel a ganlyn:

- Cynhwysiad yw un o'r pedair egwyddor fuddsoddi a fynegir yn y strategaeth a dylai arwain at newid cadarnhaol drwy "gefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth".
- Bydd egwyddor fuddsoddi cynhwysiad yn cefnogi ariannu i sefydliadau a arweinir gan neu sy'n gweithio gyda phobl o'r grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol, gyda bron i hanner y sefydliadau a ariannwyd ym mlwyddyn gyntaf Treftadaeth 2033 yn nodi eu bod yn 'dan arweiniad amrywiol' gan un neu fwy o gymunedau penodol.
- Mae'r Gronfa Treftadaeth yn gofyn i ymgeiswyr ddiffinio beth mae treftadaeth yn ei olygu iddyn nhw, yn hytrach na gorfodi diffiniad llym. Mae hyn yn caniatáu i ystod ehangach o dreftadaeth gael ei chefnogi trwy brosiectau.
- Drwy fabwysiadu dull a arweinir gan yr ymgeisydd, mae'r Gronfa Treftadaeth yn caniatáu i sefydliadau ddewis canolbwyntio ar yr egwyddor fuddsoddi cynhwysiad, a ddylai alluogi prosiectau o ansawdd uwch gael eu harwain gan ac ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd ystyried yr egwyddor fuddsoddi cynhwysiad yn eu cais.
- Mae'r strategaeth yn nodi y bydd mwy o waith partneriaeth gan y Gronfa Treftadaeth, a fydd yn caniatáu i ni gyrraedd y grwpiau hynny a arweinir gan ac ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn well.

- Mae'r strategaeth yn esbonio y bydd egwyddor buddsoddi cynhwysiad yn cefnogi unigolion a chymunedau o grwpiau gwarchodedig sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws sector treftadaeth y DU, gan gynnwys y gweithlu, llywodraethu ac ymgysylltu.
- Dylai'r trothwyon grant uwch ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy alluogi sefydliadau i gael mwy o effaith wrth gefnogi grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth.
- Mae'r adroddiad ar effaith y flwyddyn gyntaf o roi grantiau o dan y strategaeth yn dangos arwyddion cynnar o gynydd tuag at uchelgeisiau Treftadaeth 2033, yn enwedig o ran achub treftadaeth a gwneud treftadaeth yn fwy hygyrch i gymunedau ar draws y DU.

Mae'r effeithiau negyddol posibl fel a ganlyn:

- Mae ein strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ystyried y pedair egwyddor fuddsoddi ond mater i ymgeiswyr yw penderfynu ar gryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor fuddsoddi. Efallai y bydd gan rai ceisiadau lai o ffocws ar gynhwysiad, mynediad a chyfranogiad. Mae'r effaith bosibl hon yn cael ei lliniaru gan y canlynol:
 - nodi manteision cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad yn ein harweiniad arfer da a'n cyfathrebiadau
 - adolygu'r cydbwysedd ar draws y pedair egwyddor fuddsoddi ar lefel portffolio, gan ymdrin ag unrhyw anghydbwysedd drwy ymyriadau wedi'u targedu
 - cyfathrebu disgwyliadau ynghylch yr egwyddor fuddsoddi cynhwysiad o fewn arweiniad ac asesiad y Gronfa Treftadaeth
 - annog arfer cynhwysol drwy fonitro grantiau, cyfathrebu, gwaith polisi, partneriaethau a mentrau strategol a gwaith wedi'i dargedu gan dimau Ymgysylltu ar gyfer ymgeiswyr, prosiectau a'r sector ehangach.

Oedran (pobl o wahanol grwpiau oedran)

Mae potensial am effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc gyda buddsoddi wedi'i dargedu at brosiectau sy'n cydnabod eu rôl hanfodol wrth lunio a chynnal dyfodol treftadaeth a fydd wedyn o fudd i bobl o bob oedran yn y tymor hwy. Rydym wedi cyhoeddi [arweiniad arfer da](#) plant a phobl ifanc mewn treftadaeth a lansio [Rhaglen Arweinwyr Treftadaeth y Dyfodol](#) newydd.

Eraill sydd wedi'u nodi yn yr effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol a nodwyd uchod.

Anabledd (pobl sy'n anabl, yn niwroamrywiol a/neu'n profi cyflyrau iechyd hirdymor, e.e.: iechyd meddwl, salwch cronig, ac ati)

Ni nodwyd unrhyw beth ac eithrio'r effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol a nodwyd uchod.

Ailbennu rhywedd (pobl â hunaniaethau a mynegiant rhywedd gwahanol, gan gynnwys cymunedau traws, anneauidd a rhywedd anghydfurfiol)

Ni nodwyd unrhyw beth ac eithrio'r effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol a nodwyd uchod.

Priodas a phartneriaethau sifil (pobl sy'n sengl, yn briod, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil)

Ni sefydlwyd unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon.

Beichiogrwydd a mamolaeth (pobl sy'n feichiog neu sy'n rhieni/gofalwyr)

Ni sefydlwyd unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon.

Pobl â dibynyddion (pobl sy'n gofalu am rywun arall, e.e: plentyn, person hŷn neu berson anabl)

Gall y rhai sydd â chyfrifoldebau rhiant neu ofalu fod o dan anfantais oherwydd y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu i gymryd rhan. Effaith gadarnhaol y cynllun cyflwyno a'r strategaeth drosgynnol yw ei fod yn annog creadigrwydd gan ymgeiswyr wrth ddeall y rhwystrau i gynulleidfaoedd penodol a defnyddio hynny i lywio dyluniad eu rhaglenni. Ni fydd unrhyw wahaniaeth o ran effaith negyddol heblaw am y rhai a restrir yn yr effeithiau traws-nodwedd a nodwyd uchod.

Hil/ethnigrwydd/cenedligrwydd (pobl o wahanol ethnigrwydd a/neu genedligrwydd)

Ni nodwyd unrhyw beth ac eithrio'r effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol a nodwyd uchod.

Crefydd neu gred (pobl â gwahanol ffydd, e.e: Bwdhaidd, Catholig, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd, Protestannaidd neu gredoau, e.e: dyneiddiaeth, anffyddiaeth a feganiaeth)

Mae yna effaith gadarnhaol bosibl o'n menter strategol [Addoldai](#) penodedig. Rydym hefyd yn ymwybodol, fel dosbarthwr arian a godir drwy'r Loteri Genedlaethol, y gall rhai grwpiau crefyddol neu ffydd fod yn amharod i wneud cais am ariannu.

Eraill sydd wedi'u nodi yn yr effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol uchod.

Rhyw (pobl o wahanol rywiau, gan gynnwys gwrywaidd, benywaidd a rhyngrywiol)

Ni nodwyd unrhyw beth ac eithrio'r effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol a nodwyd uchod.

Cyfeiriadedd rhywiol (pobl o wahanol gyfeiriadedd rhywiol)

Ni nodwyd unrhyw beth ac eithrio'r effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol a nodwyd uchod.

Barn wleidyddol (cenedlaetholwyr, undebwyr, aelodau neu gefnogwyr pleidiau gwleidyddol eraill)

Ni nodwyd unrhyw beth ac eithrio'r effeithiau traws-nodwedd cadarnhaol a negyddol a nodwyd uchod.

Statws economaidd-gymdeithasol (pobl o wahanol statws a chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol)

Mae anghydraddoldebau ac anfanteision economaidd anghymesur yn cael eu profi gan y rhai sydd â statws economaidd-gymdeithasol isel. Yr effaith gadarnhaol o'r strategaeth yw'r effaith gymdeithasol y gall ei chael drwy'r egwyddorion buddsoddi a'n ffocws ar fuddsoddi mewn lle. Trwy ein menter [Treftadleoedd](#), mae 15 o leoedd wedi'u dewis drwy ddull seiliedig ar dystiolaeth sy'n cyfuno ymchwil feintiol newydd â mewnwelediad lleol i nodi lleoedd sydd ag anghenion, cyfleoedd a photensial o ran treftadaeth.

Nodyn ar groestoriadedd

Nid yw profiadau pobl wedi'u cyfyngu i un nodwedd ar y tro. Ystyriwch sut mae profiadau lluosog yn croestorri, e.e: menywod Mwslimaidd, neu ddynion o gefnidiroedd economaidd-gymdeithasol is, ac ati. Adolygwch a ydych chi wedi nodi effeithiau ar nifer o nodweddion a sut y gallent ryngweithio i ffurfio effaith ychwanegol neu wahanol.

Mae cyfleoedd i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gredoau crefyddol, barn wleidyddol neu grwpiau hiliol sy'n croestorri drwy gynnwys ystod fwy amrywiol o bobl mewn treftadaeth, dileu rhwystrau i fynediad a chyfranogiad a chefnogi pob cymuned i archwilio a rhannu eu treftadaeth.

Nid oes unrhyw effeithiau posibl o'r polisi/penderfyniad ar bobl sydd â hunaniaethau lluosog heblaw am y rhai a amlygwyd uchod.

8. Penderfyniad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae hwn yn asesiad effaith llawn oherwydd ymrwymiad y Gronfa Treftadaeth i adolygu ac ymgymryd â'r ymarfer yn rheolaidd. Mae hefyd yn ofynnol fel rhan o'r adolygu'r cynllun cyflwyno sy'n nodi ein cynlluniau a'n hamcanion ar gyfer buddsoddi rhwng 2026 a 2029.

Rhan 2 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

9. Darparu tystiolaeth o effaith

Atebwch y cwestiynau a ganlyn:

Demograffeg: pa wybodaeth sydd ar gael am y bobl a fydd yn rhan o'r gweithgaredd, neu a fydd yn cael eu heffeithio ganddo?

Cesglir data am amrywiaeth staff ac arweinwyr, a'r cymunedau a wasanaethir, pan fydd sefydliadau'n cofrestru gyda'r Gronfa Treftadaeth ac yn eu cais. Ers dechrau Treftadaeth

2033, rydym wedi defnyddio cwestiynau sy'n gweddu i Safon Data Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiad (DEI), fframwaith a ddefnyddir gan lawer o arianwyr.

Helpodd [canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf o ariannu Treftadaeth 2033](#) i lunio a llywio ein cyfeiriad.

Mae bron i hanner y sefydliadau y gwnaethom eu hariannu yn ystod blwyddyn gyntaf Treftadaeth 2033 yn nodi eu bod 'dan arweiniad amrywiol'. Mae mwy na hanner y sefydliadau rydym yn eu hariannu'n gwasanaethu o leiaf un gymuned benodol, yn fwyaf cyffredin pobl ifanc, pobl sydd o dan anfantais addysgol neu economaidd neu bobl hŷn.

Gellir dod o hyd i [ddata demograffig ar ein gweithlu ac amrywiaeth y Bwrdd](#), ar draws ethnigrwydd, rhyw, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol o 2020–2021 ymlaen, ar ein gwefan.

Anghenion: pa anghenion, profiadau neu flaenoriaethau ydych chi wedi'u nodi ar gyfer pobl o'r grwpiau a fydd yn cael eu heffeithio?

Mae mewnwediadau ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, gan gynnwys ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, hefyd yn ein helpu i ddysgu ac addasu cyflwyniad ein strategaeth. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun cyflwyno newydd, ceisiwyd barn rhanddeiliaid a chafwyd adborth cadarnhaol ar gyflwyniad y strategaeth hyd yma, gan adeiladu ar y broses ymgysylltu i ddatblygu'r strategaeth yn 2022–2023. Rhoddodd dros 4,000 o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd eu barn ar dreftadaeth a'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ymchwil gyfunol hon yn darparu tystiolaeth o sut y gall cyflwyno strategaeth y Gronfa Treftadaeth gefnogi cynhwysiad ac amrywiaeth gan gynnwys:

- symleiddio ac adolygu'r broses ymgeisio
- pwyslais ar ariannu sefydliadau llai, ar lefel gymunedol, a arweinir gan wirfoddolwyr a'u cefnogi i wneud cais am ariannu
- ariannu prosiectau sy'n ymwneud â chyfranogiad cymunedol, creu sgiliau a phrosiectau a arweinir gan wirfoddolwyr
- Dull cydweithredol o weithio gyda grantiau ac arianwyr eraill, gan hwyluso partneriaethau ac adeiladu perthnasoedd mwy cyfartal. A chynnig mwy o gymorth trwy ddull 'ariannwr-plws', gan ddarparu offer a hyfforddiant i'r sefydliadau y maent yn gweithio gyda nhw.
- canolbwyntio ar dreftadaeth ddigidol a chynnaladwyedd digidol
- cefnogi addasu i'r hinsawdd a chynnaladwyedd amgylcheddol
- cryfhau cydnherthedd a llywodraethiant sefydliadol
- cydnabod a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol

Bylchau: a oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth/gwybodaeth sy'n annigonol i asesu effaith y gweithgaredd yn iawn a sut y byddwch yn ymdrin â hyn?

Rydym wedi ymrwymo i ddeall ein heffaith ac mae adroddiad y flwyddyn gyntaf o ariannu grantiau o dan Treftadaeth 2033 wedi nodi bod angen gweithio i gryfhau adrodd ar effaith yn y dyfodol trwy welliannau i gasglu data am grantiau a data demograffig. Mae'n awgrymu meysydd i'w harchwilio ymhellach gan gynnwys gwirfoddolwyr, ymwelwyr a phrosiectau mawr, drwy gydol cylch bywyd prosiect. Byddwn yn parhau i gyflwyno mesurau ansoddol a meintiol i ddeall a ydym yn cyflawni yn erbyn ein datganiadau buddsoddi, gan gynnwys y gall mwy o bobl gyrchu a chysylltu â threftadaeth. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein defnydd o'r Safon Data DEI ac yn y dyfodol mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio set wahanol o gwestiynau a chategorïau i ddeall amrywiaeth a chynhwysiad yn well.

Trwy gydol y cynllun cyflwyno tair blynedd, byddwn yn casglu hyd yn oed mwy o ddata i ddangos ein heffaith ar y swyddi, y prentisiaethau a'r cyfleoedd gwirfoddoli y mae ein prosiectau'n eu creu ac am sut y maent yn ennyn diddordeb pobl ifanc, yn cefnogi cymunedau ac yn trawsnewid lleoedd yn y tymor hir.

Rydym yn adrodd ar gyfran a swm ein hariannu sy'n mynd i'r 20% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig ac yn y dyfodol byddwn hefyd yn adrodd y ffigurau hyn gan ddefnyddio mesur 'anfantais ddwbl' DCMS.

Effaith anghymesur: a yw'r gweithgaredd yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp/grwpiau?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau anghymesur. Bwriedir i ddyluniad y cynllun cyflwyno fynd i'r afael â rhwystrau er mwyn gwella ymgysylltu a rhoi cyfleoedd cyfartal i gyrchu treftadaeth.

Effaith wahaniaethol: a fydd y gweithgaredd yn arwain at wahaniaethu (uniongyrchol neu anuniongyrchol), aflonyddu, erledigaeth neu driniaeth llai ffafriol o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau anghymesur.

Effaith gadarnhaol: a yw'r gweithgaredd yn cyfrannu at hyrwyddo cyfle cyfartal?

Mae ymchwil, data a dysgu wedi bod yn sail i weithredu Treftadaeth 2033 a datblygu cynlluniau cyflwyno er mwyn sicrhau cynhwysiad a dim effeithiau andwyol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn gweld treftadaeth fel rhywbeth eang a chynhwysol ac fel unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Gofynnwn i brosiectau ystyried y pedair egwyddor fuddsoddi yn eu ceisiadau, gan gynnwys cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad, gan roi mynediad a chysylltiad â threftadaeth i fwy o bobl.

Mae ein mentrau strategol wedi'u dylunio i fynd i'r afael â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr, cefnogi dulliau traws-tiriogaethol a rhoi syniadau ac arloesiadau newydd ar waith yn gyflym. Mae mentrau strategol fel Treftadleoedd a [Trefi a Dinasoedd Natur](#) yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd â chyfleoedd treftadaeth ac anghenion economaidd-gymdeithasol amlwg ymhlith cymunedau lleol. Byddwn yn olrhain ac yn adrodd ar ein buddsoddiad mewn ardaloedd o anfantais ddwbl gydag amddifadedd uchel a diffyg seilwaith gymdeithasol. Mae'r dull wedi'i dargedu hwn yn sicrhau bod yr ardaloedd daearyddol sydd ei angen fwyaf yn derbyn cyngor ychwanegol ar adnoddau a datblygu i

wneud cais i ni drwy raglenni agored wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod dosbarthiad teg o arian.

Meithrin cysylltiadau: a oes unrhyw botensial i hyn effeithio'n negyddol ar gysylltiadau da rhwng grwpiau? A oes unrhyw gyfle i'r gweithgaredd feithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau?

Mae cyfleoedd i feithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau drwy'r gweithgareddau a restrir yn y cynllun cyflwyno. Mae'r rhaglenni'n hyrwyddo cynhwysiad ac ystod fwy amrywiol o bobl mewn treftadaeth, gan ddileu rhwystrau i fynediad a chyfranogiad a chefnogi pob cymuned i archwilio a rhannu eu treftadaeth.

Addasiadau rhesymol: pa addasiadau rhesymol sydd eu hangen i'r gweithgaredd i osgoi gwahaniaethu neu i hyrwyddo cyfle cyfartal?

Bydd partneriaethau a rhwydweithiau ehangach yn allweddol i gyflawni nodau ac uchelgeisiau'r cynllun cyflwyno, gan gynnwys cefnogi cyd-ddylunio prosiectau treftadaeth sy'n diwallu anghenion lleol a chymunedol.

Rydym am i ystod mor eang â phosibl o bobl gael mynediad at ein hariannu. Fodd bynnag, rydyn ni'n gwybod efallai bod angen cymorth ychwanegol ar rai pobl i gyrchu ein deunyddiau a chwblhau ein proses ymgeisio. Mae hyn o bosibl oherwydd bod ganddynt anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu eu bod o gymuned sydd heb ei gwasanaethu'n ddigonol. Gyda chynllun i ddiwallu anghenion mynediad pobl, byddwn yn ysgwyddo costau unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen yn y broses ymgeisio ac yn archwilio'n barhaus y rhwystrau presennol i gyrchu ein hariannu trwy ymchwil defnyddwyr gydag unigolion a phaneli.

Hygyrchedd: sut fydd y gweithgaredd yn cael ei wneud yn hygyrch i bob grŵp?

Cyhoeddir y cynllun cyflwyno ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg ac fe gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol.

Mae'r adroddiad ar effaith y flwyddyn gyntaf o ariannu o dan Treftadaeth 2033 yn dangos tystiolaeth o gynnydd wrth:

- wneud treftadaeth nad oedd ar gael yn flaenorol yn hygyrch
- gwella mynediad digidol at dreftadaeth
- cefnogi dehongliad hygyrch o dreftadaeth
- darparu mynediad cyhoeddus i dreftadaeth am y tro cyntaf
- gwneud gwelliannau hygyrchedd ffisegol ar safleoedd treftadaeth

Byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd yn erbyn ein datganiad effaith y gall mwy o bobl gyrchu a chysylltu â threftadaeth drwy gydol y cynllun cyflwyno nesaf.

Ymgysylltu: sut mae/sut fydd pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol yn cymryd rhan wrth ddatblygu, adolygu a/neu fonitro'r gweithgaredd?

Bu i'r [broses datblygu strategaeth](#) gychwynnol gynnwys ymgysylltu â thros 4,000 o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd er mwyn deall eu barn am dreftadaeth a'n cyfeiriad yn y dyfodol. Helpodd adborth gan randdeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, i ni ddysgu ac addasu darpariaeth Treftadaeth 2033 yng nghynllun cyflwyno 2026–2029 wrth i'r dirwedd allanol barhau i newid. Byddwn yn parhau i gymryd adborth gan ymgeiswyr a grantïon i ystyriaeth, gan gynnwys drwy ein proses gwasanaeth cwsmeriaid.

10. Canlyniad a phenderfyniad

Dewiswch un opsiwn yn unig.

Opsiwn 1 [wedi'i ddewis]: Dim angen newid – yr asesiad yw bod/y bydd y gweithgaredd yn gadarn.

Opsiwn 2: Addasu'r gweithgaredd – mae hyn yn cynnwys cymryd camau i ddileu unrhyw rwystrau, i hyrwyddo cydraddoldeb yn well a/neu i feithrin cysylltiadau da.

Opsiwn 3: Parhau â'r gweithgaredd er gwaetha'r potensial am effaith andwyol gyda lliniaru ar waith.

Opsiwn 4: Stopio'r gweithgaredd gan fod effeithiau andwyol na ellir eu hatal/liniaru.

11. Gweithredu

Nodwch y camau gweithredu sydd eu hangen i weithredu canfyddiadau eich asesiad.

- fframwaith effaith sy'n adrodd ar ac yn monitro cynnydd yn erbyn datganiadau effaith
- adolygiad blynyddol o gynllun cyflwyno 2026–2029
- gwelliannau casglu data ar gyfer grantiau a data demograffig

12. Monitro

Nodwch sut y bydd effaith cydraddoldeb y gweithgaredd hwn yn cael ei monitro yn y dyfodol. Gall hyn fod yn gysylltiedig â cham gweithredu neu ddigwyddiad neu adolygiad gweithgaredd y gwyddys amdano yn y dyfodol, e.e: adolygiad polisi.

Bydd adrodd ar effaith yn cael ei adolygu i ddadansoddi cynnydd yn erbyn ein hegwyddorion buddsoddi ac amcanion Treftadaeth 2033. Bydd y diweddariadau hyn yn llywio gwaith y dyfodol o adolygu'r cynllun cyflwyno'n flynyddol ac o ddatblygu'r cynllun cyflwyno nesaf ar gyfer 2029–2033.

Bydd y data i lywio ac asesu ein heffaith yn cael ei ddatblygu i gasglu rhagor o wybodaeth am ddemograffeg ein buddsoddiad.